# *Tuag at y Miliwn o Siaradwyr Cymraeg: Gwersi o'r Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*

BRETT DUGGAN a HEFIN THOMAS
*Ymchwil Arad*

ABSTRACT

In August 2016, the Welsh Government launched its vision to reach 1 million Welsh speakers by the year 2050. The education system is central to this long-term and ambitious project and there is a recognition of the need to increase significantly the number of people receiving Welsh-medium education if the target is to be achieved. This paper considers a number of overarching findings that emerged from an independent evaluation (2012–16) of the first national strategy for Welsh-medium education, launched in 2010. The evaluation drew on mixed methods, including qualitative research in thirty schools across six areas of Wales; focus groups with learners and parents; stakeholder interviews; a Wales-wide survey of head teachers, eliciting 331 completed responses; and separate focused studies on specific aspects of the Welsh-medium education system. Among the key findings were the need to strengthen planning arrangements – locally and nationally – and for local authorities to take greater ownership of Welsh in education strategic plans. The paper also reflects on the infrastructure and capacity required to support growth in Welsh-medium education. One key recurring theme is the need for robust interventions and implementation by policy-makers in supporting proposals to create 1 million Welsh speakers by 2050.

**Key words**: Welsh medium, education, planning, skills

*https://doi.org/10.16922/wje.19.2.6*

## *Cyflwyniad*

Yn Awst 2016 lansiodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050. Cydnabyddir bod y gyfundrefn addysg yn ganolog i'r prosiect uchelgeisiol a hirdymor hwn a bod angen cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sy'n derbyn addysg Gymraeg ac sy'n datblygu sgiliau Cymraeg os am gyrraedd y targed. Mae dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y cynllun 'Miliwn o siaradwyr' yn tanlinellu hyn gan gyfeirio at bwysigrwydd 'creu siaradwyr Cymraeg sydd yn mynd i drosglwyddo'r iaith i'w plant' (Llywodraeth Cymru, 2016a). Derbynnir, felly, mai'r gyfundrefn addysg yw'r peirianwaith ar gyfer gyrru'r trawsnewidiad pellgyrhaeddol sydd ei angen.

Cyhoeddwyd ymrwymiadau a thargedau uchelgeisiol eraill yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys targedau penodol mewn perthynas ag addysg Gymraeg. Yn 2010 cyflwynodd Lywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol gyntaf ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, gan osod targedau ar gyfer twf addysg cyfrwng Cymraeg erbyn y flwyddyn 2020 (Llywodraeth Cymru, 2010).

Cwblhawyd gwerthusiad annibynnol o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg rhwng Hydref 2012 a Mawrth 2016 a arweiniodd at gyfres o adroddiadau gwerthuso a 21 o argymhellion. Bu'r gwerthusiad a'r argymhellion hyn yn sail ar gyfer adnabod camau pellach a gyflwynwyd yn *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y Camau Nesaf* (Llywodraeth Cymru, 2016c). Mae'r papur hwn yn ystyried y prif negeseuon a amlygwyd yn ystod y gwerthusiad, ynghyd â'r gwersi y dylid eu harneisio er mwyn cefnogi ymdrechion cynllunwyr polisi addysg wrth gyfrannu at yr ymrwymiadau a wnaed gan lywodraeth. Cesglir bod angen grymuso prosesau cynllunio – ar y lefel genedlaethol ac ar y lefel leol; gwella a chynyddu'r isadeiledd er mwyn cefnogi ac ategu twf mewn darpariaeth; a sicrhau pwyslais ar gefnogi sgiliau Cymraeg llafar ymysg disgyblion ysgolion cyfrwng Cymraeg er mwyn meithrin pobl ifanc sy'n datblygu'n ddefnyddwyr hyderus o'r iaith yn y gymuned, gyda'u teuluoedd a, maes o law, yn y gweithle.

Dylid cydnabod cwmpas eang y gwerthusiad sy'n sail i'r papur hwn. Cafwyd ymdrech i gwmpasu holl gyfnodau addysg o'r cyfnod cyn-statudol i addysg ôl-16, gan ystyried prosesau cynllunio, darpariaeth a safonau, y gweithlu, adnoddau dysgu a sgiliau iaith Gymraeg. O ganlyniad, nid oes modd cynnig dadansoddiad cynhwysfawr ar bob agwedd o'r gyfundrefn. Yn hytrach, ymgais a geir yn y papur hwn i adnabod rhai o'r materion



06 Duggan WJE.indd 100 10/10/2017 13:24

allweddol a'r cwestiynau pellach i'w hystyried wrth fynd ati i gynllunio darpariaeth. Ar yr un pryd, y mae ffocws y papur yn gul: canolbwyntio'n fwriadol ar dystiolaeth y gwerthusiad y mae'r papur ac nid yw'n cyferio'n fanwl at y corff cynyddol o ymchwil ehangach ym meysydd cynllunio ieithyddol a ieithyddiaeth gymdeithasol sy'n bodoli.

### *Cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg: cyd-destun cryno*

Yn ôl y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 'twf addysg cyfrwng Cymraeg oedd un o ddatblygiadau mwyaf nodedig system addysg Cymru yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif' (Llywodraeth Cymru, 2010: 4). Yn wir, gwelwyd datblygiadau arwyddocaol dros y cyfnod hwn ac mae'n briodol ein bod yn atgoffa'n hunain yn gyflym o'r cyd-destun hanesyddol a'r shifft allweddol a welwyd dros y degawdau.

Mae'n bwysig nodi bod addysg Gymraeg 'wedi datblygu mewn dull anstrwythuredig a darniog, heb nemor ddim cynllunio canolog cyfundrefnol' (Jones, 2003: 118). Nid canlyniad strategaeth na chynllun cenedlaethol oedd sefydlu'r ysgolion Cymraeg cynnar. Sefydlwyd yr ysgolion Cymraeg cyntaf mewn ymateb i frwdfrydedd ac ymgyrchu rhieni, gweithgorau lleol ac ewyllys unigolion dylanwadol (Williams, 2002). Bu hyn yn wir am Ysgol yr Urdd, Aberystwyth yn 1939, Ysgol Gymraeg Llanelli (yr ysgol Gymraeg gyntaf i'w sefydlu gan awdurdod addysg lleol yn 1947) ac ysgol Gymraeg Ynyslwyd, Aberdâr, yr ysgol Gymraeg gyntaf yng nghymoedd y de (1949). Gan gyfeirio at ddatblygiad cynnar addysg Gymraeg yn ne-ddwyrain Cymru casglodd un sylwebydd mai 'pobl, yn fwy na pholisi, fu'r dylanwad pennaf ar dwf ysgolion Cymraeg' (Thomas, 2010: 256).

Mewn rhai ardaloedd bu awdurdodau lleol yn gymharol rhagweithiol wrth gefnogi datblygiadau (Llywodraeth Cymru, 2010) a chafwyd ymdrechion blaengar i lunio a gweithredu polisïau iaith '[c]yfansawdd ac uchelgeisiol' i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg (Williams, 2002: 290). Serch hynny, nid oedd strategaeth genedlaethol yn ei lle i yrru twf mewn ffordd wedi'i chynllunio. O ganlyniad, ehangodd nifer yr ysgolion mewn modd tameidiog ac ad hoc.

Dros amser, pasiwyd deddfwriaeth a roddodd yr hawl i ddysgwyr dderbyn addysg yn ôl dymuniadau eu rhieni (Deddf Addysg 1944), ac a sicrhaodd le mwy blaenllaw i addysg Gymraeg (Deddf Diwygio Addysg 1988). Crëwyd sefydliadau cenedlaethol a lwyddodd i gefnogi a chryfhau



06 Duggan WJE.indd 101 10/10/2017 13:24

statws addysg Gymraeg, yn cynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) ac ELWa (Cyngor Cenedlaethol Addysg a Hyfforddiant Cymru). Cryfhawyd y seilwaith a'r strwythurau i gefnogi addysg Gymraeg yn genedlaethol.

Ers datganoli yn 1999 bu newidiadau sylweddol i'r tirlun gwleidyddol a gweinyddol yng Nghymru; Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am lunio a gweithredu polisi addysg cenedlaethol. Cafwyd ymrwymiad i greu Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol yn rhaglen lywodraethu Llywodraeth Cymru yn 2007 (Llywodraeth Cymru, 2007). Roedd cyhoeddi'r strategaeth dair blynedd wedi hynny, wedi proses ymgynghori, yn ddatblygiad pwysig wrth i Lywodraeth Cymru gyflwyno gweledigaeth strategol a chynllun gweithredu ar gyfer sicrhau twf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg.

Mewn datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Ebrill 2010 nododd y gweinidog dros blant, addysg a dysgu gydol oes ar y pryd: '**Am y tro cyntaf, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer datblygu ymhellach y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ac ar gyfer dysgu'r iaith yn ein system addysg a hyfforddiant**' **(Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010)**. Yn yr un datganiad disgrifiodd y gweinidog y broses o lunio'r strategaeth fel 'carreg filltir hanesyddol yn natblygiad addysg cyfrwng Cymraeg' (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010).

Gan gymryd golwg tymor hirach roedd cyhoeddi strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg, felly, yn ganlyniad i'r symudiad o dwf anstrwythuredig addysg Gymraeg tuag at gynllunio strategol mwy systematig. Tra bod addysg Gymraeg yng nghanol y ganrif ddiwethaf wedi tyfu o'r gwaelod i fyny, mae datganoli wedi ei gwneud hi'n bosibl cynllunio ar lefel genedlaethol, gan ddefnyddio fframwaith deddfwriaethol lle bo angen i ffurfioli a gosod trefn ar y broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

### *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010–15*

Cyhoeddwyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg ('y Strategaeth') gan Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010 gydag ymrwymiad ynddi i 'dwf parhaus mewn addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ym mhob sector ac ystod oedran' (Llywodraeth Cymru, 2010: 2). Gweledigaeth y Strategaeth, a oedd yn weithredol hyd at 2015, oedd:



06 Duggan WJE.indd 102 10/10/2017 13:24

> cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd wedi'i chynllunio i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. (Llywodraeth Cymru, 2010: 4)

Anelodd y Strategaeth at adeiladu ar y twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg a welwyd yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif gan sicrhau y 'caiff fframwaith a seilwaith polisi cryfach eu sefydlu a'u datblygu' (Llywodraeth Cymru, 2010: 5). Gosodwyd pwyslais hefyd ar flaengynllunio effeithiol er mwyn cefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ar draws pob cyfnod o addysg a hyfforddiant, asesu'r galw am addysg Gymraeg yn gywir, ac ymateb i'r galw hwnnw (Llywodraeth Cymru, 2010: 5). Diffiniwyd cyfres o nodau strategol yn anelu at gryfhau dulliau cynllunio a gwella'r seilwaith i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg yn genedlaethol ac ar lefel leol. Yn eistedd o dan y nodau strategol hyn, cafwyd cyfres o ddeilliannau a thargedau ar gyfer 2015 a 2020 er mwyn galluogi monitro cynnydd wrth roi'r strategaeth ar waith (gweler Tabl 1).

## *Methodoleg y gwerthusiad*

Wrth werthuso canlyniadau a thraweffeithiau'r Strategaeth, casglwyd tystiolaeth drwy ystod o ddulliau ymchwil ac adolygiadau unigol yn cynnwys:

- ymchwil ansoddol ar ffurf astudiaethau ardal mewn chwech ardal o Gymru (ymweliadau i 30 o ysgolion i gyfweld a phenaethiaid ac athrawon, cyfweliadau gyda 12 o swyddogion awdurdodau lleol, grwpiau trafod gyda rhieni a dysgwyr);
- arolwg cenedlaethol yn canolbwyntio ar ganfyddiadau penaethiaid ac uwch reolwyr ysgolion a cholegau addysg bellach o draweffaith y Strategaeth – cafwyd 331 o ymatebion gan ysgolion a cholegau;
- cyfweliadau â 37 o randdeiliaid cenedlaethol;
- adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol (gweler Llywodraeth Cymru, 2014b);
- adolygiad yn canolbwyntio ar adnoddau cyfrwng Cymraeg yn cynnwys arolwg o athrawon pwnc mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg (gweler Llywodraeth Cymru, 2014c);



06 Duggan WJE.indd 103 10/10/2017 13:24

**Tabl 1. Deilliannau, dangosyddion a thargedau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg**

| *Deilliannau* | *Dangosyddion* | *Targedau* | |
|---|---|---|---|
| | | *2015* | *2020* |
| **Deilliant 1**. Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg | Canran y dysgwyr Blwyddyn 2 a asesir yn y Gymraeg | 25% | 30% |
| **Deilliant 2**. Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd | Canran y dysgwyr Blwyddyn 9 a asesir yn y Gymraeg | 19% | 23% |
| **Deilliant 3**. Mwy o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg | Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg | 84% | 88% |
| | Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster Lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg | 62% | 68% |



06 Duggan WJE.indd 104 10/10/2017 13:24

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Deilliant 4**. Mwy o fyfyrwyr 16–19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith (DSaW) | Gweithgareddau addysg myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a dwyieithog fesul sector | Ysgolion<br>18% | <br>20% |
| | | Addysg bellach<br>7% | <br>10% |
| | | DSaW<br>2.5% | <br>4% |
| **Deilliant 5**. Mwy o fyfyrwyr â sgiliau iaith uwch yn y Gymraeg | Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch (iaith gyntaf) fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg iaith, ddwy flynedd yn gynharach | 7% | 9% |
| | Cyfanswm cofrestriadau Cymraeg Safon Uwch ail iaith fel canran o gofrestriadau TGAU Cymraeg ail iaith cwrs byr a chwrs llawn, ddwy flynedd yn gynharach | 3.5% | 4% |

*Ffynhonnell*: Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru: 2010)



06 Duggan WJE.indd 105 10/10/2017 13:24

- astudiaeth o waith yr hyrwyddwyr dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach (gweler Llywodraeth Cymru, 2014d).

## *Prif ganfyddiadau*

Cafwyd cefnogaeth i weledigaeth a nodau'r Strategaeth ar draws y sector addysg. Fodd bynnag, ni chafodd y weledigaeth hon ei gwreiddio ar draws yr holl bartneriaid gweithredu ac ar hyd gwahanol haenau'r gyfundrefn addysg, o Lywodraeth Cymru i lawr i awdurdodau lleol a darparwyr (Llywodraeth Cymru, 2016b). Casglwyd mai un o'r rhesymau pennaf am hyn oedd y newidiadau sylweddol a welwyd ym maes polisi addysg yn ystod y cyfnod yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth. Gwelwyd newidiadau i drefniadau cefnogi ysgolion gyda sefydliad y consortia addysg rhanbartholi; cwblhawyd hefyd adolygiadau polisi allweddol ym meysydd cymwysterau, cynllunio a chyllido ôl-16, y cwricwlwm a threfniadau asesu a hyfforddiant cychwynnol athrawon. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad nad oedd gweledigaeth na dylanwad y Strategaeth wedi'u prif ffrydio'n ddigonol i wrthsefyll dylanwad datblygiadau allanol eraill (Llywodraeth Cymru, 2016b). Hynny yw, rhoddwyd mwy o flaenoriaeth gan benaethiaid, ymarferwyr a rhanddeiliaid i ddatblygiadau eraill ar draws y gyfundrefn addysg.

Cafwyd amrywiadau yn y sylw a roddwyd i'r Strategaeth gan wahanol bartneriaid gweithredu. Dengys y dystiolaeth y bu rhai awdurdodau lleol a darparwyr yn gweithredu mewn ffordd flaengar i gefnogi gweledigaeth a nodau'r Strategaeth trwy eu cynlluniau strategol sefydliadol (Llywodraeth Cymru, 2016b). Ar y llaw arall, gwelwyd diffyg blaengynllunio strategol ar gyfer cefnogi twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ymysg nifer o awdurdodau lleol a darparwyr, er gwaetha'r weledigaeth a thargedau uchelgeisiol (Llywodraeth Cymru, 2016b).

Canfu'r gwerthusiad y bu gwelliannau yn y ffordd y mae awdurdodau lleol a rhai partneriaid gweithredu eraill yn cynllunio i gefnogi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Serch hynny, nid oedd gweithrediad y cynlluniau a sefydlwyd wedi sicrhau twf ar y raddfa a ddymunwyd. Dengys tystiolaeth y gwerthusiad nad yw'r cynllunio ar sail ymateb i'r galw, sef un o egwyddorion y Strategaeth, o angenrhaid yn cynnydd yn y ddarpariaeth (Llywodraeth Cymru, 2016b).



06 Duggan WJE.indd 106 10/10/2017 13:24

*Cynnydd yn erbyn targedau*

Cafwyd rhywfaint o lwyddiant wrth gynyddu darpariaeth dros gyfnod y Strategaeth. Fodd bynnag, yn achos mwyafrif y dangosyddion ni chyflawnwyd y cynnydd a ragwelwyd yn 2010. Er enghraifft, cwblhawyd dadansoddiad yn ystod y gwerthusiad o'r cynnydd yn erbyn y targed ar gyfer 2020 o '30 y cant o ddysgwyr saith oed yn cael eu hasesu yn y Gymraeg (iaith gyntaf)'. Ystyriwyd gofynion a goblygiadau'r targed hwn o safbwynt nifer y dysgwyr ychwanegol fydd eu hangen yn y gyfundrefn addysg Gymraeg er mwyn cwrdd â'r targed. Dengys Ffigur 1 isod y cynnydd angenrheidiol rhwng 2009 i 2020 er mwyn cyrraedd y targed o 30 y cant. Roedd y cynnydd a welwyd yn ystod oes y Strategaeth yn fyr o'r meincnod disgwyliedig a phe bai'r llinell duedd yn parhau yn yr un modd, rhagamcanir y cyrhaeddir canran o oddeutu 24.5 y cant erbyn 2020. Er mwyn cyrraedd targed 2020 (sef 30 y cant), amcangyfrifir y byddai angen 1,900 yn fwy o ddysgwyr saith oed (sy'n cyfateb i fwy na 60 dosbarth ychwanegol o 30 o blant) yn y system addysg Gymraeg.

Ers cyhoeddi'r gwerthusiad o'r Strategaeth, y mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno ffigyrau sydd yn cymryd golwg mwy uchelgeisiol a hirdymor sy'n adlewyrchu'r targed i greu miliwn o siaradwyr.

> Ar hyn o bryd mae tua 22 y cant (sef 7,900) o ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn cael eu hasesu yn Gymraeg (iaith gyntaf). Petai'r ganran hon yn codi i 50 y cant yna byddai hyn yn oddeutu 18,000 o ddysgwyr (ar sail maint y garfan o ddysgwyr ym Mlwyddyn 2 yn 2015), sef tua 10,000 yn ychwanegol o blant. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 331 o ddosbarthiadau newydd cyfrwng Cymraeg drwy Gymru gyfan. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymrwymiad y system addysg i greu miliwn o siaradwyr. (Llywodraeth Cymru, 2016a: 7)

Ar lefel ymarferol, golyga hyn cynllunio bwriadus gan lywodraethau ganolog a lleol ar gyfer agor ysgolion a sicrhau bod y seilwaith mewn lle i gynnal a chefnogi'r ddarpariaeth.


Tanlinella hyn yr angen am gynllunio a gweithredu pellgyrhaeddol os am gyrraedd y targed cenedlaethol. Casglwyd yn y Strategaeth:

> Os yw'r targedau a osodwyd ar gyfer 2020 yn parhau i fod yn dargedau 'byw', mae angen cynllunio a gweithredu radical er mwyn cyflymu'r twf mewn darpariaeth. Mae angen sicrhau cyswllt clir rhwng y targedau lleol a bennir ar gyfer darpariaeth ar hyd y cyfnodau addysg a thargedau cenedlaethol. (Llywodraeth Cymru, 2016b: 52)



06 Duggan WJE.indd 107 10/10/2017 13:24

**Ffigur 1. Cynnydd yn erbyn targed 2020 ar gyfer canran y dysgwyr saith oed a asesir yn y Gymraeg***




* Mae'r dadansoddiad hwn yn seiliedig ar senario lle mae nifer y dysgwyr saith oed yn aros yn gyson rhwng 2013 a 2020 (bu amrywiadau yn niferoedd y dysgwyr saith oed o tua 30,000 a 34,000 yn y blynyddoedd rhwng 2003 a 2013). Byddai twf yn nifer y dysgwyr saith oed yn golygu bod angen twf cyfatebol yn nifer y dysgwyr saith oed sydd yn cael eu haddysg yn y Gymraeg.

*Ffynonellau*: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Blynyddol y Strategaeth (2014-15); Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg

## *Heriau*

Mae'r heriau a amlygodd eu hunain drwy'r gwerthusiad yn gyffredin ar draws bob un maes polisi wrth i gynllunwyr polisi geisio gyrru newid ar raddfa genedlaethol. Yn gyntaf, er mwyn i strategaeth fod yn ddogfen fyw sy'n gyrru newid, yn hytrach na dogfen statig, dyheadol yn unig, mae angen i weledigaeth gael ei pherchnogi'n llawn gan yr holl bartneriaid allweddol (yn enwedig swyddogion ac aelodau etholedig o fewn llywodraeth leol yn achos y Strategaeth hon). Yn ail mae angen cynllunio grymus a threfniadau monitro cadarn sy'n sicrhau y caiff cynlluniau eu gweithredu i safon a gydag ewyllys ar hyd holl haenau'r gyfundrefn addysg. Yn drydydd, ac yn gysylltiedig i'r pwynt blaenorol, mae angen arweinyddiaeth gref i sicrhau bod dulliau ac ansawdd y gweithredu yn cael eu herio os nad ydynt yn cyfrannu tuag at ddeilliannau strategol (Llywodraeth Cymru, 2016b: 159). Yn achos y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg



06 Duggan WJE.indd 108 10/10/2017 13:24

codwyd cwestiynau ynghylch pa mor grymus oedd y 'system atebolrwydd' ac arweinyddiaeth wrth gefnogi gweithrediad effeithiol y Strategaeth. Er i brosesau gael eu sefydlu i sicrhau bod awdurdodau lleol a darparwyr yn gweithredu i gwrdd â gofynion statudol, gan gynnwys llunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGAau), nid oedd trefniadau monitro, craffu a her yn ddigon cadarn (Llywodraeth Cymru, 2016b: 37–8).

Gofyniad arall (a her pellach) wrth geisio sicrhau cynnydd neu dwf o fewn system yw argaeledd capasiti digonol i gefnogi'r twf hwn. Yn achos y 'system addysg cyfrwng Cymraeg' cyfeirir yma at gapasiti'r gweithlu addysg a'r ystod eang o gefnogaeth y gellir eu grwpio fel cymorth canolog cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys hyfforddiant, cymwysterau, adnoddau dysgu ac addysgu). Ystyrir y materion hyn mewn rhagor o fanylder yn yr adrannau isod, gan ddechrau gyda chynllunio darpariaeth.

### *Cynllunio darpariaeth a gyrru twf*

Daeth yn amlwg yn ystod y gwerthusiad nad oedd y cynlluniau a luniwyd ar lefel leol (nac ychwaith, wrth reswm, y gweithredu cysylltiedig) yn ddigonol i sicrhau twf ar y raddfa a ddymunwyd gan Lywodraeth Cymru. Amlygwyd y gwahaniaeth rhwng:

i. cynllunio ar sail 'ymateb i'r galw gwybodus ymhlith rhieni' (gan ragdybio y bydd galw cynyddol am addysg Gymraeg) sef yr hyn a gyflwynwyd yn y Strategaeth; a

ii. chynllunio pwrpasol gyda'r bwriad clir o gynyddu darpariaeth a symbylu twf yn y galw. (Llywodraeth Cymru, 2014: 53)

Anelodd y Strategaeth at 'greu' twf drwy ymateb i'r galw (i. uchod). Fodd bynnag, casglodd y gwerthusiad nad yw'r dull hwn o gynllunio o angenrhaid yn sicrhau twf yn y ddarpariaeth. Yn sicr, er bod Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi arwain at broses gynllunio fwy ffurfiol a strwythuredig – a bod gosod CSGAau ar sail statudol yn ddatblygiad pwysig – nid oedd tystiolaeth y bu newidiadau i ymagweddau'r mwyafrif o awdurdodau lleol o safbwynt blaengynllunio pwpasol i dyfu addysg Gymraeg. Wrth ystyried trefniadau cynllunio darpariaeth yn ystod y gwerthusiad dangoswyd y bwlch rhwng y weledigaeth genedlaethol a'r gweithredu ar lefel leol (Llywodraeth Cymru, 2016b: 66).

Amlygwyd hyn yn y dystiolaeth ar gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y cyfnodau statudol. Codwyd cwestiynau ynghylch



06 Duggan WJE.indd 109 10/10/2017 13:24

effeithiolrwydd y cynllunio o safbwynt cefnogi cynnydd yn y ddarpariaeth. Adroddodd penaethiaid a rhanddeiliaid mewn rhai ardaloedd bod awdurdodau yn 'araf' neu'n 'gyndyn' i ymateb i'r galw cynyddol am addysg Gymraeg. Mae ymagwedd a dealltwriaeth unigolion allweddol (cyfarwyddwyr addysg, aelodau etholedig, uwch-swyddogion) yn dylanwadu'n gryf ar ansawdd ac effeithiolrwydd cynlluniau a gweithredu lleol. Gan gadw mewn cof y twf sydd ei angen i gefnogi'r nod o gyrraedd miliwn o siaradwyr, bydd angen i arweinyddion lleol berchnogi cynlluniau addysg cyfrwng Cymraeg lleol a gyrru twf mewn ffordd sy'n cefnogi'r weledigaeth genedlaethol.

Mae'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg yn parhau i golli nifer o ddysgwyr wrth iddynt drosglwyddo rhwng addysg gynradd ac uwchradd. Dengys data gweinyddol bod nifer o ddysgwyr yn trosglwyddo o addysg cyfrwng Cymraeg gan symud i astudio mewn ffrydiau Saesneg neu ddwyieithog ac yn dilyn cyrsiau Cymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Ceir amrywiaeth o fodelau darpariaeth dwyieithog mewn ysgolion lle y defnyddir y Gymraeg i raddau gwahanol wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r amrywiaeth hon yn ffactor pwysig yn y patrymau dilyniant, gyda'r cyfraddau dilyniant isaf yn yr ardaloedd lle mae'r nifer uchaf o ysgolion dwyieithog (Llywodraeth Cymru, 2016b: 98).

Yn y sector addysg bellach mae'r prosiect Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd wedi cefnogi'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ac wedi arwain at gynnydd yn y sylw a roddir i gefnogi'r Gymraeg mewn colegau. Serch hynny, er bod cryn gwaith datblygiadol yn digwydd yn y sector, ni welwyd trawsnewidiad yn lefel y ddarpariaeth ar draws y sector. Parhau i fod yn isel iawn mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach (Llywodraeth Cymru, 2016b: 49). Casglwyd mai un o wendidau'r broses gynllunio yn y sector addysg bellach yw diffyg cynlluniau gweithredu ar lefel sefydliadol. Er bod cefnogaeth i nodau'r Strategaeth ymysg penaethiaid, nid yw'r gweithredu yn ddigon pwrpasol a strategol ac, yn sgil hyn, ychydig iawn o gynnydd a welwyd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y sector addysg bellach yn ystod oes y Strategaeth.

### *Seilwaith a chymorth canolog*

Nod y Strategaeth oedd adeiladu capasiti a sgiliau'r gweithlu cyfrwng Cymraeg er mwyn sicrhau bod cyflenwad digonol o ymarferwyr ar draws pob cyfnod addysg a hyfforddiant (Llywodraeth Cymru, 2010: 17). Bu twf



06 Duggan WJE.indd 110 10/10/2017 13:24

yn nifer a chanran y myfyrwyr sy'n cwblhau cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon ac yn medru addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod oes y Strategaeth (Llywodraeth Cymru, 2016b: 104). Serch hynny, nid yw'r dystiolaeth yn dangos bod y Strategaeth wedi esgor ar newidiadau sylfaenol i gyflenwad y gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg. Yn hanner yr awdurdodau lleol a fu'n rhan o astudiaethau ardal y gwerthusiad nododd swyddogion eu bod yn ymwybodol o anawsterau recriwtio i ysgolion Cymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan wahanol gyfranwyr (penaethiaid, uwch reolwyr ysgolion a rhanddeiliaid cenedlaethol) yn ategu hyn a chyfeiriwyd at brinder athrawon o fewn y gweithlu addysg Gymraeg mewn sawl pwnc yn y sector uwchradd: mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth yn y sector uwchradd. Nodwyd hefyd bod prinder arweinwyr/uwch reolwyr yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Dengys data gweinyddol bod nifer yr ymgeiswyr i swyddi yn y sector cyfrwng Cymraeg yn sylweddol is na'r sector cyfrwng Saesneg a bod nifer y ceisiadau ar gyfartaledd i swyddi gweigion mewn ysgolion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi haneru ers 2010 (Llywodraeth Cymru, 2016b: 120). Canfu'r gwerthusiad bod ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg yn wynebu anawsterau wrth benodi athrawon Cymraeg ac wrth ddod o hyd i athrawon cyflenwi sy'n medru addysgu'r Gymraeg. Mae hyn yn gyson â data sy'n dangos gostyngiad yn nifer yr athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg fel ail iaith (Llywodraeth Cymru, 2016b: 112).

Ochr yn ochr â materion yn ymwneud â chyflenwad y gweithlu, cyflwynwyd tystiolaeth i awgrymu bod gan rai arweinyddion a phenaethiaid ysgolion bryderon ynghylch safonau iaith y gweithlu cyfredol. Daethpwyd i'r casgliad bod angen sicrhau y rhoddir sylw arbennig i safonau iaith mewn cyrsiau hyfforddiant cychwynnol i athrawon a hyfforddiant parhaus er mwyn codi safon iaith ymarferwyr sydd eisoes o fewn y gyfundrefn addysg (Llywodraeth Cymru, 2016b: 112).

Fel rhan o'r gwerthusiad, cwblhawyd astudiaeth ar y Cynllun Sabothol, sy'n darparu cyfnodau o astudio dwys i ymarferwyr er mwyn eu galluogi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg. Casglodd yr astudiaeth bod y Cynllun Sabothol wedi arwain at ddeilliannau cadarnhaol i unigolion ac ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2014b: 45). Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i lenwi bylchau mewn sgiliau iaith ac yn ennyn hyder ymysg nifer o ymarferwyr gyda rhywfaint o Gymraeg. Fodd bynnag, casglodd y gwerthusiad bod angen trefniadau hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus prif-ffrwd sy'n sicrhau cyflenwad digonol o ymarferwyr rhugl o'r radd flaenaf er mwyn cefnogi twf mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.



06 Duggan WJE.indd 111 10/10/2017 13:24

Dengys y dystiolaeth y bu gwelliant yn y cymorth canolog i'r sector addysg cyfrwng Cymraeg ers cyhoeddi'r Strategaeth. Yn sgil gweithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 gwelwyd cynnydd yn y dewis o gymwysterau cyfrwng Cymraeg ac yn hynny o beth mae hyn wedi cefnogi nodau'r Strategaeth (Llywodraeth Cymru, 2016b: 132). Gwelwyd bod galw parhaus gan ymarferwyr am gymorth gan Lywodraeth Cymru a chyrff dyfarnu i ddarparu cymwysterau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Casglodd y gwerthusiad bod angen i gyrff dyfarnu sicrhau bod capasiti digonol ganddynt i ddarparu cymwysterau'n ddwyieithog, yn benodol aseswyr a chymedrolwyr gyda sgiliau Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2016b: 132).

Mae'n hollbwysig hefyd bod cyrff dyfarnu a Llywodraeth Cymru yn blaengynllunio er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer datblygiad adnoddau cyfrwng Cymraeg i gyd-fynd â lansio cymwysterau newydd. Mae casgliad yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2012) y dylai cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd (ac felly yr adnoddau i'w cefnogi) fod ar gael yn y Gymraeg ar yr un pryd â rhai Saesneg hefyd yn gyson â'r canfyddiad hwn. Dengys y dystiolaeth o'r astudiaethau ardal a'r *Adolygiad o Adnoddau* bod angen lleihau'r bwlch amser rhwng cynhyrchu fersiynau Saesneg a Chymraeg o adnoddau gan fod hyn yn achosi cryn rhwystredigaeth i athrawon a dysgwyr (Llywodraeth Cymru, 2014c: 57).

Rhaglen comisiynu adnoddau Uned y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru fu'n bennaf gyfrifol am yrru'r twf yn y dewis o adnoddau cyfrwng Cymraeg. Cesglir bod y rhaglen comisiynu adnoddau yn gyfraniad gwerthfawr i ymdrechion i wella'r dulliau cymorth canolog ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, 2014c: 69). Tra bod y broses o adnabod yr anghenion, comisiynu prosiectau a chyhoeddi adnoddau yn cymryd amser, mae'r rhaglen serch hynny yn galluogi ysgolion i ymateb i flaenoriaethau strategol cenedlaethol. Casglodd y gwerthusiad bod prinder dewis mewn nifer o feysydd yn parhau i fod yn broblem i benaethiaid ac ymarferwyr. Adroddwyd bod prinder adnoddau electronig a rhyngweithiol yn y Gymraeg, adnoddau cyfoes cyfrwng Cymraeg ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac adnoddau ar gyfer y sector addysg bellach (Llywodraeth Cymru, 2016b: 133).



06 Duggan WJE.indd 112 10/10/2017 13:24

*Sgiliau iaith a defnydd o'r Gymraeg*

Gwelwyd cynnydd mewn cyrhaeddiad a safonau pynciau Cymraeg iaith gyntaf ac ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn ystod oes y Strategaeth. Yn ôl tystiolaeth y gwerthusiad, y pwyslais cynyddol ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, asesiadau PISA, a'r agenda gwella safonau yn gyffredinol, fu'n bennaf gyfrifol am y cynnydd mewn cyrhaeddiad yn hytrach na'r Strategaeth.

Darlun cymysg a geir o'r dystiolaeth a gasglwyd mewn perthynas â safonau Cymraeg ail iaith. Ar yr un llaw, dengys data cyrhaeddiad y bu gwelliant yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 ers 2010. Fodd bynnag, mae'r gwelliant hwn yn seiliedig ar waelodlin isel. Casglwyd tystiolaeth ansoddol a oedd yn mynegi beirniadaeth ynglŷn â safonau Cymraeg ail iaith yn yr arolwg penaethiaid ac yn yr holl astudiaethau ardal.

Rhoddwyd peth pwyslais yn ystod y gwerthusiad ar y defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc. Yn ystod yr astudiaethau ardal, nododd mwyafrif yr ymarferwyr, rhanddeiliaid, dysgwyr a'r rhieni ei bod yn anodd cynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr o fewn yr ysgol. Codwyd y pwynt hwn ar draws y chwe ardal ond yn fwy aml yn y tair ardal oedd â chanrannau uwch o ddysgwyr o gartrefi di-Gymraeg. Nododd mwyafrif yr ymarferwyr yn y tair ardal honno nad oedd dysgwyr, yn eu tyb hwy, yn gwneud digon o ddefnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol i ddatblygu eu sgiliau llafar i'w potensial llawn. Cefnogwyd y safbwynt hwnnw gan nifer o ymarferwyr yn y tair ardal arall yn ogystal â mwyafrif y rhanddeiliaid cenedlaethol. Gan gydnabod fod y dystiolaeth hon yn seiliedig yn rhannol ar ganfyddiad ymatebwyr ynghylch ymddygiad ieithyddol dysgwyr, awgryma hyn bod angen ystyried ymhellach amryw ddulliau o gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu sgiliau llafar dysgwyr – yn enwedig dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg.

Y mae'r cyswllt clir hwn rhwng sgiliau llafar a defnydd yn codi dau gwestiwn (neu faes) ymchwil ehangach. Mae'r cwestiwn cyntaf, sydd yn ymwneud ag addysgeg a ymarfer ar lawr yr ystafell ddosbarth, yn ymestyn i tu hwnt i gwmpas y gwerthusiad a gwblhawyd: beth yw'r dulliau addysgu neu ymyriadau fwyaf effeithiol wrth ddatblygu sgiliau (llafar) Cymraeg a meithrin siaradwyr Cymraeg hyderus? Er mwyn symud tuag at y targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr erbyn 2050 y mae'n hanfodol creu'r amodau gorau er mwyn manteisio'n llawn ar y sgiliau Cymraeg y mae'r gyfundrefn addysg yn eu cynhyrchu. Cyhoeddwyd *Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15* gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ym mis

Tachwedd 2015. Ymhlith canfyddiadau allweddol yr arolwg nodwyd bod cyswllt clir rhwng rhuglder ac amlder defnydd o'r Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2015a), sy'n tanlinellu pwysigrwydd rôl y gyfundrefn addysg wrth feithrin sgiliau iaith er mwyn cefnogi defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r ail faes yn ymwneud â'r ymyriadau y tu allan i addysg ffurfiol (gweithgareddau allgyrsiol neu gymdeithasol) sydd hefyd yn cefnogi defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl ifanc. Rhoddwyd peth sylw i'r materion hyn yn ystod y gwerthusiad, gan fod y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yn cynnwys nod i'gyfrannu at feithrin ac atgyfnerthu sgiliau iaith yn y Gymraeg mewn teuluoedd ac yn y gymuned' (Llywodraeth Cymru, 2010: 19).

Yn ystod grwpiau trafod yr astudiaethau ardal, roedd mwyafrif y dysgwyr yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion eu hysgolion i gynnal gweithgareddau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i addysg ffurfiol. Adroddodd penaethiaid ac ymarferwyr yn ystod yr astudiaethau ardal bod gwreiddio'r iaith Gymraeg fel rhan o hunaniaeth dysgwyr ac annog defnydd o'r Gymraeg y tu allan i sefyllfaoedd ffurfiol yn gofyn trefnu a chynnal gweithgareddau ychwanegol. Yn ddiddorol, cyfeiriodd rhai ymarferwyr mewn gwahanol ardaloedd at y 'cyfrifoldeb' sydd ar ysgolion i annog defnydd o'r iaith Gymraeg ar y buarth a thu hwnt i furiau'r ysgol (Llywodraeth Cymru, 2016b: 147). Mae'r cysyniad neu'r ymdeimlad o *gyfrifoldeb* i gyfrannu tuag at atgyfnerthu sgiliau iaith Gymraeg drwy wahanol weithgareddau ôl-ysgol yn rhywbeth nad yw'n cael ei fynegi mewn strategaethau cenedlaethol. Gan ategu sylwadau tebyg gan ymarferwyr ar draws y chwe ardal yn y gwerthusiad, esboniodd un pennaeth nad yw polisi cenedlaethol yn cydnabod yn ddigonol y 'gwerth ychwanegol y mae athrawon ysgolion Cymraeg yn [ei ddarparu]' er mwyn cefnogi'r iaith Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2016b: 147). Mewn rhai ardaloedd sy'n bennaf ddi-Gymraeg, yr ysgol i bob pwrpas yw canolbwynt y 'gymuned Gymraeg'. Adroddwyd sylwadau tebyg gan fwyafrif yr ymarferwyr mewn tair o'r chwe astudiaeth ardal (ardaloedd â chanrannau is o siaradwyr Cymraeg). Nododd un pennaeth, er enghraifft, mai 'ychydig iawn o weithgareddau allgyrsiol neu gymdeithasol' oedd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac oherwydd hyn, yr ysgol sy'n mynd ati i gynnig clybiau ar ôl-ysgol a gweithgareddau allgyrsiol i annog defnydd o'r Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol. Mae'r canfyddiadau uchod yn pwysleisio'r angen i gydnabod y gwahaniaethau yn natur ieithyddol cymunedau ac yn ategu canfyddiad ymchwil a gomisiynwyd ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned sef 'bod angen gwahanol ddwyster o gynllunio



06 Duggan WJE.indd 114 10/10/2017 13:24

i gefnogi'r Gymraeg ar lefel gymunedol' (Llywodraeth Cymru, 2015b: 121).

Mewn tair o'r astudiaethau ardal (yr ardaloedd hynny â chanrannau uwch o siaradwyr Cymraeg) roedd ymarferwyr yn fwy tebygol o nodi cysylltiadau'r ysgolion â mudiadau allanol (e.e. yr Urdd, Mentrau Iaith a Chlybiau Ffermwyr Ifanc) nag yn y tair ardal arall. Pwysleisiodd mwyafrif yr ymarferwyr (a rhai dysgwyr) ar draws yr astudiaethau ardal bod y cyfleoedd a gynigir gan fudiadau o'r fath yn bwysig er mwyn dangos bod y Gymraeg yn berthnasol mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol. Dengys y dystiolaeth bod ysgolion yn awyddus i feithrin y cysylltiadau hyn er mwyn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd a gweithgareddau cymdeithasol i ddysgwyr yn y Gymraeg (Llywodraeth Cymru, 2016b: 148).

Yn eu hymatebion i gwestiynau agored ac ansoddol yr arolwg penaethiaid, cynigiodd rhai penaethiaid sylwadau mewn perthynas â defnydd dysgwyr o'r iaith Gymraeg, gan gyfeirio at enghreifftiau o brosiectau unigol oedd yn gweithredu o fewn eu hysgol. Cynigiodd rhai penaethiaid ysgolion cyfrwng Cymraeg sylwadau ar gynllun Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI). Mae PCAI, sydd bellach yn weithredol ar draws sawl ardal o Gymru, yn anelu at gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg yn arbennig ymysg dysgwyr nad ydynt yn defnyddio'r iaith yn naturiol na'n rheolaidd. Adroddwyd y bu PCAI yn gyfrifol am gynyddu defnydd o'r Gymraeg ymysg dysgwyr ac wedi codi ymwybyddiaeth ymysg nifer o ymarferwyr o'r berthynas rhwng ysgolion ac egwyddorion cynllunio ieithyddol (Llywodraeth Cymru, 2016b: 148).

## *Casgliadau*

Awgryma tystiolaeth y gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg nad yw'n debygol y cyrhaeddir y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 heb ymyrraeth a chynllunio pwrpasol er mwyn sicrhau bod y gyfundrefn addysg yn medru gyrru'r trawsnewidiad pell-gyrhaeddol sydd ei angen. Hyd yma, nid yw Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg wedi arddangos yr uchelgais angenrheidiol. Mae trefniadau ar waith i adolygu'r cynlluniau hyn sy'n cynnig cyfle arall i Lywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn glir ynghylch y disgwyliadau sydd arnynt mewn perthynas â hyrwyddo twf addysg cyfrwng Cymraeg a'u bod wedi ymrwymo i uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. Y



06 Duggan WJE.indd 115 10/10/2017 13:24

mae angen system graffu ac atebolrwydd mewn lle i sicrhau cyswllt clir rhwng y targedau lleol a bennir ar gyfer darpariaeth ar hyd y cyfnodau addysg a'r weledigaeth genedlaethol hirdymor.

Casglodd y gwerthusiad nad yw'r capasiti yn bodoli ar hyn o bryd yn y gweithlu addysg i wasanaethu twf sylweddol yn y gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg. Canfu'r gwerthusiad bod bylchau yn y wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ymarferwyr a'u gallu i ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn olaf, mae yna ddadl dros ymgymryd ag ymchwil bellach i sicrhau dealltwriaeth fanylach o'r amodau, dulliau addysgu a ffactorau eraill sy'n cefnogi pobl ifanc i ddatblygu'n ddefnyddwyr hyderus a naturiol o'r Gymraeg y tu hwnt i'w cyfnodau o fewn addysg statudol. Y thema gyffredin i godi o'r gwerthusiad yw bod angen ymyriadau a gweithredu cadarn er mwyn symud tuag at y miliwn o siaradwyr.

## *Cyfeiriadau*


Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010). *Cofnod y Trafodion 20 Ebrill 2010: Datganiad ar y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gan y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes.* Ar gael yma: *www.senedd.cynulliad.cymru* (cyrchwyd 18 Ebrill 2017).

Deddf Addysg 1944 (diddymwyd 1996). Ar gael yma: *www.legislation.gov.uk/ukpga/Geo6/7–8/31/contents* (cyrchwyd 18 Ebrill 2017).

Deddf Diwygio Addysg 1988. Ar gael yma: *www.legislation.gov.uk/ukpga/1988/40/contents* (cyrchwyd 18 Ebrill 2017).

Jones, M. P. (2003). *Gwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg ym Maes Addysg Gymraeg,* yn G. Roberts a C. Williams (goln), *Addysg Gymraeg, Addysg Gymreig.* Bangor: Prifysgol Bangor.

Llywodraeth Cymru (2007). *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru – Cytundeb rhwng Grŵp Llafur a Grŵp Plaid Cymru yn y Cynulliad Cenedlaethol.*

Ar gael yma: *www.arsyllfadysgu.com/adnodd/cymrun-un-rhaglen-flaengar-ar-gyfer-llywodraethu-cymru/* (cyrchwyd 18 Ebrill 2017).

Llywodraeth Cymru (2010). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2012). *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014a). *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Interim.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.




06 Duggan WJE.indd 116 10/10/2017 13:24

Llywodraeth Cymru (2014b). *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o'r Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg ar gyfer ymarferwyr addysgol: profiad cyfranogwyr 2011–2012.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014c). *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adolygiad o Ddefnydd ac Ansawdd yr Adnoddau a Gomisiynwyd gan Uned y Gymraeg mewn Addysg, Llywodraeth Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014d). *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Astudiaeth o Waith yr Hyrwyddwyr Dwyieithrwydd mewn Addysg Bellach, Llywodraeth Cymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015a). *Y Defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013–15.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015b). *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned – Astudiaeth Ymchwil.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2016a). *Dogfen ymgynghori: Ymgynghoriad ar strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru: miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2016b). *Gwerthusiad o'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad Terfynol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2016c). *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: y Camau Nesaf.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Thomas, H. S. (2010). *Brwydr i Baradwys? Y Dylanwadau ar Dwf Ysgolion Cymraeg De-ddwyrain Cymru.* Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, I. W. (gol.) (2002). *Hanes Sefydlu Ysgolion Cymraeg 1939–2000.* Talybont: Y Lolfa.




06 Duggan WJE.indd 117 10/10/2017 13:24